Mary Wynne Jones (1925 – 2022)

Ganwyd Mary Wynne ar 6 Hydref 1925 yn ferch i ferch i feryllydd yn Nolgellau. Wedi cyfnod yn Ysgol Dr Williams, Dolgellau, ymrestrodd ar gyfer cwrs newydd ym Mhrifysgol Abertawe, sef Diploma mewn Arweinyddiaeth Ieuenctid. Yn dilyn cyfnod yn gweithio gydag Urdd Gobaith Cymru yn Sir Drefaldwyn, fe'i phenodwyd yn Drefnydd yr Urdd yng Ngheredigion, y gyntaf i wneud y gwaith hwnnw. Daeth i fyw i Lanbedr Pont Steffan ac yno, mewn cwrdd gweddi, y cyfarfu â gweinidog ifanc, cyn-löwr o Fancffosfelen, Tom Ellis Jones, oedd yn gofalu am Noddfa, Llambed; Bethel, Silian a Chaersalem, Parc-y-rhos. Yn 1951, priodwyd Mary a Tom a daeth y ddau â doniau gwahanol i bartneriaeth effeithiol a barodd drwy eu bywyd priodasol. Flynyddoedd wedyn nododd Tom, 'ers i ni briodi yn 1951, rydw i wedi ystyried y weinidogaeth fel gweinidogaeth ar y cyd … ac felly y bu'. Yn 1955, derbyniwyd galwad i Fethesda, Glanaman, ac yno y ganwyd y meibion, Emyr ac Arwel. Yn 1969, symudodd y teulu i Landudno lle buont yn gweinidogaethu yn y Tabernacl a Horeb, Cyffordd Llandudno, nes i Tom ymddeol yn 1979. Dychwelodd y ddau i Ddolgellau, cartref Mary Wynne, ac yno y buont hyd farwolaeth sydyn Tom yn 1999. Bu Mary yn byw'n hapus a bodlon yn ei chynefin hyd at ei marwolaeth.

Rhai o nodweddion amlycaf Mary Wynne oedd ei bywiogrwydd a'i hawydd i weithio dros yr eglwys ac mewn meysydd ehangach dros y Gymraeg. Yn 2002 cafodd ei hanrhydeddu fel Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru a bu'n Llywydd Mudiad y Chwiorydd. Roedd yn un o'r cwmni bychan a oedd ynghlwm â sefydlu Cartref Glyn Nest. Yn ogystal â'r ffaith ei bod mor fywiog, roedd yn gwybod pob dim ac yn nabod pawb! A hithau'n ymhell yn ei nawdegau, byddai'n derbyn ceisiadau am wybodaeth am gysylltiadau teuluol, enwadol a lleol ac yn ymateb iddynt yn brydlon. Gyda throad y flwyddyn eleni, ac ar ôl blynyddoedd lawer o weddwdod, gyda'i ffrindiau a'i theulu yn gefn iddi, fe'i trawyd gan salwch. Ar ôl cwta fis, gartref yn ei gwely, daeth ei bywyd i ben

Fel Cristnogion, rydym yn diolch am gyfraniad Mary, y diweddar Tom ac am y bartneriaeth a fu. Y cysur yw gwybod bod Mary bellach yn nwylo diogel ei Gwaredwr. Roedd y cyfnod olaf yn anodd ond, yng nghanol hwnnw, cafodd nerth yn ei gwendid. Does dim diweddglo gwell i'r cofnod hwn amdani na dyfynnu'r emyn y bu hithau'n ei adrodd y diwrnod cyn iddi farw: 'Cymer, Arglwydd, f'einioes i i'w chysegru oll i ti; cymer fy munudau i fod fyth yn llifo er dy glod'. Amen

Rhan o deyrnged a baratowyd gan y Parchg Rhys Llwyd gyda chymorth y teulu, ac a draddodwyd gan y Parch Iwan Llewelyn Jones yn yr oedfa i ddiolch am fywyd a gwasanaeth y ddiweddar Mary Wynne Jones ar 12 Chwefror 2022.



Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi **Mawrth-Ebrill 2022**

Trefn Oedfaon y Sul

Sul 6 Mawrth		
Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	9.30 y bore	Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ysgol Sul
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog – Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Sul 13 Mawrth		
Aberduar	10.00 y bore	Coda Ni
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Sul 20 Mawrth		

Oedfa Zoom i'r Cylch, 10 y bore
dan ofal Delyth Morgans Phillips
Pregethir gan Einir Jones, Rhydaman

Sul 27 Mawrth		
Aberduar	10.00 y bore	Lyndon Lloyd
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog
Seion a Brynhafod (ym Mrynhafod)	2.00 y prynhawn	Gweinidog
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa Sul y Mamau

Sul 3 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	10.30 y bore	Ysgol Sul
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog – Cymun
Noddfa	3.30 y p'nhawn	Gweinidog—Cymun

Sul 10 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Ffred Ffransis
Bethel	10.15 y bore	Oedfa Fedydd
Seion	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun

Sul 17 Ebril—Sul y Pasg

Aberduar	9.30 y bore	Gweinidog—Cymun
Noddfa	11.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	2.00 y prynhawn	Oedfa'r Pasg

Sul 24 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Parchg Wynn Vittle
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion a Brynhafod (yn Seion)	2.00 y p'nhawn	Parchg Wynn Vittle

COFIWCH DROI AT WEFAN Y CYLCH
www.bedyddwyrgogleddteifi.org

Ewch hefyd i'n cyfrif Twitter
@BedyddGogTeifi

ac i'n tudalen Facebook

https://www.facebook.com/BedyddwyrGogleddTeifi

BEDYDD

Cynhelir bedydd yng nghapel Bethel ar fore Sul 10 Ebrill. Os teimla rywun arall ar ei galon yr hoffai ymrestru ar gyfer bedydd, a wnewch chi gysylltu â'r gweinidog mewn da bryd os gwelwch yn dda

RHAGHYSBYSIAD

CYMANFA BEDYDDWYR CAERFYRDDIN A CHEREDIGION

ABERDUAR 18 MAI 2022

10.30—Y GYNHADLEDD

12.30—PREGETH: Y PARCHG D. DENSIL MORGAN

2.30—OEDFA GENHADOL

6.00—OEDFA'R LLYWYDD:
MRS ANN BOWEN MORGAN

CYNHOEDDIR MANYLION PELLACH YN RHIFYN NESAF Y DEUFIS